

Cefndir

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i **Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Mae'r CDLI ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisïau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymhell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLI ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Hwn yw fersiwn 2 o'r papur testun ac mae'n diweddarau fersiwn 1 gafodd ei gyflwyno efo'r Cynllun Adnau. Mae'r fersiwn ma yn sylweddol wahanol i fersiwn 1 gan ei fod yn rhoi diweddariad o'r gwaith ar yr Aseiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 ac y gwaith mae'r Cynghorau yn ei ymgymryd ar gyfer adnabod safleoedd i gyfarch yr angen o fewn yr aseiad yma.

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Cyhoeddiad: Fersiwn 2

Mawrth 2016

Cynnwys

		Tudalen
1.0	Cyd-destun	3
2.0	Tystiolaeth o Angen	4
3.0	Y Sefyllfa Bresennol	7
4.0	Gofynion yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd	8
5.0	Methodoleg Asesu Safleoedd Diwygiedig	10
6.0	Y Ffordd Ymlaen	16
Atodiadau		
Atodiad 1	CAM 1 SAFLEOEDD GAFODD YSTYRIAETH YM MÔN	17
Atodiad 2	CAM 2 SAFLEOEDD GAFODD YSTYRIAETH YM MÔN A GWYNEDD	19
Atodiad 3	SAFLEOEDD POSIB I'W DYNODI	27
Atodiad 4	LLEOLIADAU GWERSYLLOEDD SIPSIWN A THEITHWYR ANAWDURDODEDIG	37
Atodiad 5	NIFER Y CARAFANAU AR SAFLEOEDD AWDURDODEDIG AC ANAWDURDODEDIG YR ADRODDWYD ARNYNT MEWN CYFRIFON CARAFANAU SIPSIWN A THEITHWYR HANNER BLYNYDDOL 2013-2015	38
Atodiad 6	LLYFRYDDIAETH	39
Atodiad 7	DIFFINIADAU O SIPSIWN A THEITHWYR	40

1.0 Cyd-destun

- Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr os gwelwyd bod angen rhai
 - Fe wnaeth Cylchlythyr 30/07 Llywodraeth Cymru Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr atgyfnerthu'r gofyn bod awdurdodau lleol yn canfod ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd priodol yn eu cynlluniau lleol
 - Mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Teithio at Ddyfodol Gwell' yn datgan fframwaith polisi ar gyfer Cynghorau
 - Gwyddys am achosion o wersylloedd anawdurdodedig yn ardal y Cynllun (Atodiad 4 a 5)
 - Mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen am safleoedd parhaol a dros dro i Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau priodol yn ardal y Cynllun
- 1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 (2016) (PCC) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn cyfarwyddo ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (mae para 9.2.21 yn cyfeirio at hyn) ac yn nodi ei bod yn bwysig bod polisiâu ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol.
- 1.2 Mae tystiolaeth o Gyfrifiad 2011 yn adlewyrchu gwaith ymchwil blaenorol sydd wedi amcangyfrif bod rhwng hanner i dri chwarter Sipsiwn neu deithwyr Gwyddelig yn byw mewn llety brics a mortar. Y rhesymau a awgrymir ar gyfer hyn yw'r diffyg safleoedd carafanau sydd ar gael a diffyg safleoedd sydd â mynediad at yr amwynderau a'r gwasanaethau sydd eu hangen. Yng Nghyfrifiad 2011, byngalo neu dŷ cyfan oedd y math mwyaf cyffredin o lety ar gyfer ymatebwyr a nododd eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig, sef 61% o'i gymharu ag 84% ar gyfer holl breswylwyr arferol Cymru a Lloegr. Roedd carafán neu adeiledd symudol neu dros dro arall yn cyfrif am 24% o lety Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, ffigur sy'n llawer uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan (0.3%). Mae Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf Ynys Môn a Gwynedd 2016 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys data poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o gyfrifiad 2011 i Wynedd ac Ynys Môn. Nod yr asesiad hwn yw nodi anghenion llety presennol ac i ragweld y ddarpariaeth lleiniau preswyl/tramwy a safleoedd aros dros dro yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- 1.3 Mae dealltwriaeth o broblemau llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddefnyddiol er mwyn gwneud darpariaeth a gynlluniwyd yn briodol, ac i osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ad hoc neu anawdurdodedig.

2.0 Tystiolaeth o Angen

2.1 Mae yna ddwy astudiaeth sydd wedi adnabod angen ar gyfer ardal y Cynllun sef Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint (GTANA) (2013) ac adroddiad Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2016) gwaith ar y cyd gan Gwynedd a Môn sydd yn disgwyl cymeradwyaeth gan Llywodraeth Cymru. Cyfeirir tuag at yr astudiaethau yma isod.

2.2 Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) (2013)

2.2.1 Cyn Deddf Tai (Cymru) 2014, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr dan Adrannau 225 a 226 o Ddeddf Tai 2004. Pan fo aseiad bod angen heb ei ddiwallu am lety Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, dylai'r Cyngor ddynodi digon o safleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol i sicrhau y gellir bodloni'r gofyn a nodwyd am leiniau at ddefnydd preswyl a thramwy.

2.2.2 Yn unol â Deddf Tai 2004, cafodd Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint (GTANA) (2013) ei gynnal ar gyfer holl awdurdodau cynllunio lleol Gogledd Cymru ar wahân i Wrecsam (a oedd wedi cynnal astudiaeth ar wahân).

2.2.3 Awgrymai canfyddiadau'r GTANA bod gofyn am 11 o leiniau preswyl parhaol yn lle'r safle presennol a oddefir ger Pentraeth, Ynys Môn ynghyd â gofyn am 10 o leiniau preswyl parhaol ychwanegol yng Ngwynedd. Cyfrifodd y GTANA bod 28 o leiniau 'tramwy' yn ofynnol yng Ngogledd Cymru i'w rhannu rhwng yr Awdurdodau Lleol. Nid oes unrhyw safleoedd tramwy awdurdodedig yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Gall lleiniau 'tramwy' naill ai fod ar safleoedd ffurfiol sy'n debyg i safleoedd preswyl parhaol, ond dim ond am hyd at 3 mis y caiff y deiliad aros yno. Fel arall gellir eu lletya mewn safleoedd aros dros dro. Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a gyhoeddwyd yn GTANA (2013), ystyrir y bydd angen polisiâu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI) Adnau i ddiogelu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr presennol ac i'r dyfodol rhag newidiadau mewn defnydd i ddefnyddiau amgen tra bod angen yn parhau am safleoedd fel y dangosir yn yr Aseiad diweddaraf o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Bydd polisiâu seiliedig ar feini prawf hefyd yn ofynnol i wneud darpariaeth ar gyfer angen ychwanegol sy'n codi yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd angen i'r polisi sy'n seiliedig ar feini prawf arfaethedig ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl parhaol newydd gael ei fframio gan ystyried y canllawiau arferion da sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

2.2.4 Er y disgwylir bod cynigion safle-benodol yn cael eu nodi yn y CDLI ar y Cyd Adnau er mwyn bodloni'r diffyg darpariaeth a nodir yn y GTANA presennol, dim ond un safle, sef estyniad i'r safle presennol yn Llandygai i ddarparu 5 o leiniau ychwanegol sy'n debygol o gael ei ddangos ar Fap Cynigion y Cynllun Adnau. Golyga hyn ar y Cam Adnau bod prinder o 5 llain breswyl barhaol yn dal i fod yng Ngwynedd ynghyd ag 11 o leiniau ar Ynys Môn. Cydnabuwyd bod angen i'r Cynghorau nodi safleoedd pellach ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i fodloni'r angen a nodwyd am leiniau preswyl parhaol, yn ogystal â safleoedd i gynnwys safleoedd aros dros dro i ddiwallu angen Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld â'r ardal.

2.3 Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) (2016)

2.3.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr o dan Adran 101 Rhan 3 o Ddeddf Tai 2014. Rhaid i'r Adroddiadau Asesu hyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Mae Cynghorau

Gwynedd ac Ynys Môn yn disgwyl i glywed a yw eu hasesiadau wedi cael eu cymeradwyo fel y'u cyflwynwyd, wedi'u cymeradwyo gydag addasiadau, ynteu wedi eu gwrthod. Lle mae asesiad o angen heb ei diwallu am lety Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, dylai'r Cyngor ddynodi digon o safleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol i sicrhau y gellir bodloni'r gofynion a nodwyd am leiniau ar gyfer defnydd preswyl a thramwy Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofynion i ddarparu lle gwaith a chyfleusterau ar gyfer cynnal y gweithgareddau a gynhelir fel arfer gan Sipsiwn a Theithwyr.

2.3.2 Dylai'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr sydd gydag Arddull Cyfrifiad newydd a'r system newydd arfaethedig ar gyfer ymgymryd â'r Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr ddarparu sylfaen gadarnach ar gyfer cyfrifo'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal y Cynllun na GTANA 2013.

2.3.3 Nododd GTAA 2016 yr anghenion canlynol:

Lleiniau preswyl parhaol

	Lleiniau preswyl parhaol sydd eu hangen yn awr	Angen posibl am leiniau preswyl dros y cyfnod 5 mlynedd nesaf
Gwynedd	5	6
Ynys Môn	4	0

Safleoedd ar gyfer safleoedd aros tramwy/dros dro

	Nifer y safleoedd ychwanegol sy'n ofynnol	Lleoliad safleoedd sydd eu hangen
Gwynedd	1	Ardal Caernarfon
Ynys Môn	2	Canol Môn ac Ardal Caergybi

Ni wnaeth Asesiad 2016 adnabod angen am safleoedd Tramwy nac chwaith am safleoedd i deithwyr sioeau.

2.3.4 Er mwyn diwallu'r angen a nodwyd yn GTAA 2016, argymhellodd yr Asesiad y canlynol:

(a) Dylid diwallu'r angen a nodwyd am safleoedd preswyl parhaol drwy:

1. Diogelu'r ddarpariaeth breswyl sy'n bodoli eisoes yn yr Ardal Astudiaeth;
2. Dyrannu estyniad i'r safle Sipsiwn Llandygai presennol ym Mangor yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) i ddiwallu'r angen preswyl yng Ngwynedd.
3. Dyrannu safle yn ardal Menai i ddiwallu angen Teithwyr am safle Ffordd Pentraeth a oddefir yn y CDLI ar y Cyd.
4. Bod y Cyngor yn ceisio cyllid gan Grantiau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r safleoedd preswyl a nodwyd. Y Cynlluniau Prosiect i'w cytuno gan y Cynghorau perthnasol.

(b) Dylid diwallu'r angen a nodwyd am safle aros dros dro drwy:

5. Dyrannu man aros dros dro yn Ardal Caernarfon;
6. Yn ogystal yng Ngwynedd, ar y rhagdybiaeth bod y rhan fwyaf o'r gwerylloedd anghyfreithlon yn ardal y Bala a Chricieth wedi bod am un ymweliad, dylid parhau i ddefnyddio'r protocol goddef ar gyfer y math hyn o ymweliadau yn yr ardaloedd dan sylw.
7. Dyrannu dau safle aros dros dro ar hyd yr A55 yn Ynys Môn, un yn ardal Caergybi ac un yng nghanol yr ynys, i ddarparu ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi gwneud gwerylloedd anawdurdodedig yn rheolaidd yn y ddwy ardal. Dylai'r safle ar gyfer canol yr ynys fod â chapasiti i ddarparu ar gyfer hyd at 15 o garafanau. Dylai safle Caergybi fod â lle i hyd at 12 o garafanau.

(c) Argymhellion Ychwanegol

8. Bod y cynghorau yn ymrwymo arian i hwyluso'r tri man aros dros dro a nodwyd fel rhai angenrheidiol.
 9. Bod y Grŵp Llywio Prosiect yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau y bydd monitro parhaus yn cael ei gynnal, ac i nodi a ddylid cyflenwi unrhyw fannau aros preswyl neu dros dro pellach i gwrdd ag unrhyw angen pellach a nodwyd.
 10. Grŵp Llywio'r Prosiect i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2013 ynghyd â'r argymhellion a nodwyd yn astudiaeth 2015.
- 2.3.5 Mae Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn wedi cymeradwyo'r Asesiad GTAA 2016 a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru erbyn y 26 Chwefror 2016 (Gwynedd yn ei Gabinet ar y 19 Ionawr 2016 ac Ynys Môn trwy ei Bwyllgor Gwaith ar y 8 Chwefror 2016).

3.0 Darpariaeth Cyfredol

3.1 Mae'r rhan yma yn amlinellu'r darpariaeth cyfredol yn gyntaf o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ac yn ail gan Awdurdodau cyfagos.

3.2 Darpariaeth o fewn Ardal y Cynllun

3.2.1 Mae un safle preswyl Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol yn Llandygai ger Bangor gyda chapasiti ar gyfer 7 o leiniau ar hyn o bryd. Hefyd ceir safle a oddefir i Deithwyr ger Pentraeth, lle mae 4 aelwyd yn byw. Goddefwyd y safle hwn gan Gyngor Sir Ynys Môn ers ymgais aflwyddiannus i adfeddiannu'r safle drwy'r Llysoedd yn 2007. Ystyrir bod y safle hwn ar hyn o bryd yn cynnig amodau byw anfodhaol, ac felly dylid ei wella neu ei ail-leoli i safle mwy priodol.

3.2.2 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro awdurdodedig o fewn yr ardal astudiaeth na gweddill Gogledd Cymru. Mae gan y ddau Gyngor brotocolau ar gyfer delio â gwersylloedd anawdurdodedig.

3.3 Darpariaeth mewn Awdurdodau Lleol Cyfagos

3.3.1 **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd i nodi safle preswyl parhaol i Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â man aros dros dro. Yn ddiweddar, cafodd Cyngor Conwy ganiatâd cynllunio a Grant Llywodraeth Cymru i ddatblygu safle ar gyfer 4 o leiniau preswyl parhaol ger yr A55 yng Nghonwy. Maent wedi nodi safle addas ar gyfer man aros dros dro ger St George ger Bodelwyddan ond nid yw hyn wedi cael ei symud ymlaen hyd yma.

3.3.2 **Cyngor Sir Powys**

Mae safle preswyl parhaol Awdurdod Lleol presennol (10 llain) yn y Trallwng ac mae'r Cyngor yn bwriadu dyrannu safle preswyl parhaol pellach (4 llain) ym Machynlleth yn ei Gynllun Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg.

3.3.3 **Ceredigion**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol a dim ond un safle preifat awdurdodedig yn y sir. Yn seiliedig ar yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015/16 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, nid oes angen darpariaeth breswyl ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Ngheredigion. Er bod yr arolwg wedi nodi rhywfaint o weithgarwch tramwy ar draws y sir a bod awgrymiadau efallai fod angen safleoedd tramwy, yr oedd y teuluoedd teithiol a gyfwelwyd yn gwrthwynebu defnyddio safleoedd tramwy dyranedig. Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynigion i ddarparu safleoedd tramwy.

3.3.4 **Parc Cenedlaethol Eryri**

Ni wnaeth Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyrannu unrhyw fannau aros parhaol na thros dro yn y Parc. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu.

4.0 Gofynion i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y cyd)

4.1 Bydd angen i'r CDLI ar y Cyd ymdrin ag anghenion llety a nodwyd yn GTANA 2016 fel yr amlinelli'r ym mharagraff 2.3.3 uchod. Mae'r rhannau canlynol yn amlinellu'r gwaith sydd wedi cymryd lle yn y gwahanol gamau o baratoi y CDLI ar y cyd.

4.2 Cynllun Adnau

4.2.1 Mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys polisiâu i ddiogelu'r ddarpariaeth bresennol, dyrannu safle ychwanegol a darparu fframwaith i asesu cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd mewn ymateb i angen y cafwyd tystiolaeth ohoni yn yr Asesiad Angen Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf. Mae gwrthwynebwyr, yn bennaf Llywodraeth Cymru, yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod y Cynllun yn ymdrin â'r holl angen a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion diweddaraf. Gwneir sylwadau hefyd ynglŷn â'r geiriad a gynhwysir yn y Polisi a'r testun ategol.

4.2.2 Fe wnaeth y Cynllun Adnau adnabod safle presennol Llandygai i'w ddiogelu fel safle preswyl parhaol ac yn ychwanegol paratoi estyniad i'r safle yma ar gyfer 5 llain ychwanegol.

4.3 Newidiadau â Ffocws

4.3.1 Ers cyhoeddi'r Cynllun Adnau bu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Tai i gynnal Asesiad Anghenion diwygiedig ac i nodi atebion, gan ddangos ymrwymiad parhaus y ddau Gyngor i ymateb i'r anghenion am leiniau preswyl a mannau aros, i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n teithio drwy'r ardal.

4.3.2 Mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun Adnau a chanfyddiadau GTAA 2016, cynigir dyrannu estyniad mwy nag a ddangosir yn y Cynllun Adnau i'r safle presennol ger Stad Ddiwydiannol Llandygai. Bydd y dyraniad mwy hwn cyfarch angen llety parhaol yng Ngwynedd. Mae'r newidiadau â ffocws a newidiadau mân eraill yn cynnwys diwygiadau i Bolisi a geiriad testun cefnogol er mwyn adlewyrchu bod y newidiadau uchod wedi cael eu cymeradwyo gan y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2016.

4.3.3 Cynghorwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn nad yw ar hyn o bryd yn gallu nodi safleoedd a ffeirir i leoli lleiniau parhaol a dros dro i Sipsiwn a Theithwyr ar yr Ynys. Roedd Cyngor Ynys Môn wedi bwriadu cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Gweithredol ar 25 Ionawr 2016 yn argymhell safleoedd penodol, ond tynnwyd yr adroddiad hwn yn ôl. Ar y sail hon, mae Newidiadau â Ffocws NF72 a NF73 (croesyfeirio) angen rhywfaint o olygu er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Yn ogystal, dilëwyd Newid â Ffocws NF112, a oedd yn nodi safle arfaethedig i gynnwys rhai lleiniau aros dros dro, o'r rhestr o Newidiadau â Ffocws a ystyriwyd gan y Cyd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar 29^{ain} Ionawr 2016.

4.3.4 Yn ychwanegol ni oedd Cyngor Gwynedd yn gallu nodi safle a ffeirir ar gyfer lleiniau dros dro yn Caernarfon.

4.4 Gwaith Cyfredol

4.4.1 Er mwyn ymdrin â'r diffyg darpariaeth a nodwyd yn GTANA 2015 penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn gynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus i helpu i lywio argymhellion a wneir i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor ym mis Ebrill 2016. Mae'r

ymgyngoriad yn rhoi cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ar wyth safle ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y Cyngor fel safleoedd posibl i ddarparu ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn GTANA 2015 ar gyfer Ynys Môn. Mae'r Cyngor wedi comisiynu eiriolwr annibynnol i ymgysylltu â phreswylwyr presennol y safle a oddefir ger Pentraeth i gael gwell dealltwriaeth o'u gofynion.

- 4.4.2 Mae Cyngor Gwynedd wedi asesu tri safle posib yn Caernarfon i gyfarch yr anghenion Sipsiwn a Theithwyr a gafodd ei adnabod yn y 2016 GTAA ar gyfer Gwynedd. Bydd yr Aeold Cabinet yn gwneud penderfyniad ar y safle a ffefrir.
- 4.4.3 Bydd cynnydd y Cynllun hyd at ei archwilio yn caniatáu i'r mater hwn gael ei ymchwilio yn fwy trylwyr. Ystyrir bod y gwaith cyfredol a nodwyd yn dangos ymrwymiad parhaus y ddau Gyngor i ymateb i'r anghenion am leiniau preswyl a mannau aros i ddarparu ar gyfer y r angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr o fewn ardal y Cynllun..

5.0 Methodoleg Diwygiedig o Asesu Safleoedd

5.1 Mae'r methodoleg a ddefnyddir ar gyfer adnabod ac wedyn asesu safleoedd posib ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn tarddu o ddwy ddogfen allweddol gan Llywodraeth Cymru. Y ddogfen allweddol ar gyfer rhoi canllaw i awdurdodau lleol ar gyfer yr ystyriaethau cynllunio i gael hyd i safleoedd priodol i Sipsiwn a Theithwyr yw Cylchlythyr 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr a Canllaw Ymarfer Da ar gyfer Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru gan Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod y fethodoleg a ddefnyddir yn gyson gyda'r canllaw cenedlaethol yn y dogfennau a enwir uchod.

5.2 Chwilio am safleoedd posib ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

5.2.1 Yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Tai 2014 newydd, rhaid i'r Cyngor gwrrdd â'r anghenion tai yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr (parhaol a dros dro). Mae grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru i ariannu darpariaeth safleoedd preswyl parhaol a safleoedd dros dro newydd neu gwell sy'n cydymffurfio â'u canllawiau dylunio cyhoeddedig, ond nid ar gyfer safleoedd aros dros dro.

5.3 Am ba fath o safleoedd ydym ni'n chwilio?

5.3.1 **Safleoedd parhaol** o 0.03 - 1ha o arwynebedd i gynnwys hyd at 11 o lleiniau carafannau, yn dibynnu ar faint y safle a'r dystiolaeth ddiweddaraf o angen, gyda mynediad cyfleus at siopau, cyfleusterau cymunedol ac ysgolion

5.3.2 Rhwydwaith o **fannau aros dros dro** yn Ardal y Cynllun gydag arwynebedd safle 0.03 – 0.4ha i gynnwys rhwng 1 a 15 carafán (8 llain), yn dibynnu ar faint y safle sydd ar gael a'r dystiolaeth ddiweddaraf o angen.

5.3.3 Dengys tystiolaeth o gofnodion y Cyngor am wersylloedd anawdurdodedig bod y rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys arosiadau anaml am gyfnod byr o nosweithiau wrth ymweld â'r ardal neu wrth deithio i ac o lwerddon. Yn seiliedig ar y patrwm defnydd hanesyddol hwn, nid oes digon o dystiolaeth i ddangos angen am safle dros dro parhaol lle gall teuluoedd aros am hyd at 3 mis cyn symud ymlaen. Dynodiad o rwydwaith o fannau aros dros dro sy'n adlewyrchu orau'r patrwm o angen a defnydd o fewn ardal y Cynllun.

5.3.4 Dylai safleoedd aros parhaol a dros dro ystyried y ffactorau canlynol:-

- Mynediad da i gerbydau neu fynediad sy'n gallu bodloni gofynion priffyrdd tebygol
- Yn weddol wastad
- Yn gallu cael ei wasanaethu â dŵr, trydan a rheoli gwastraff
- Yn rhydd o gyfyngiadau amgylcheddol gan gynnwys perygl o lifogydd, tir halogedig, agosrwydd at leoliadau neu weithrediadau peryglus
- Y gellir ei gymhathu i mewn i'r dirwedd heb ormod o niwed i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal amgylchynol
- Dim niwed sylweddol i fwynderau eiddo preswyl cyfagos neu fusnesau sy'n bodoli eisoes.

- Dim effeithiau andwyol ar ardaloedd a ddynodwyd fel rhai sydd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol o ran bioamrywiaeth neu dirwedd
- Amgylchedd diogel i breswylwyr

5.4 Sut asesir safleoedd posibl?

- 5.4.1 Asesir safleoedd posibl ar gyfer ei addasrwydd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a Gwasanaethau Tai yn erbyn ystod o feini prawf a nodir mewn matrices, yn cynnwys:
- cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol, hygyrchedd, cydymffurfio â pholisïau cynllunio; argaeledd gwasanaethau ac ymarferoldeb, cynaliadwyedd, er mwyn hidlo allan safleoedd anaddas. Mae'r holl feini prawf wedi cael ystyriaeth fanwl ar gyfer materion cynaliadwyedd gan gynnwys unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol. Bydd safleoedd a ffefrir yn destun ymchwiliad manwl pellach ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol cyn cael eu datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Byddai angen caniatâd cynllunio ffurfiol cyn y gellid datblygu safleoedd o'r fath.
- 5.4.2 Profodd y matrices yn offeryn defnyddiol i gymharu'n gyflym addasrwydd cymharol y safleoedd posibl ac fel mecanwaith hidlo. Mae'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr posibl hefyd yn destun i asesiadau tebyg i'r asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer y Safleoedd Ymgeisiol, gan gynnwys asesiadau yn erbyn Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 5.4.3 Datblygwyd dull dwy haen ar gyfer y meini prawf i sicrhau asesiad trylwyr o'r safleoedd posib.
- 5.4.4 Cam 1 – Cafodd safleoedd ei asesu yn gyntaf yn erbyn materion a fuasai yn atal ei defnydd fel safle Sipsiwn a Theithwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth o ddynodiadau amgylcheddol arwyddocaol, perygl o llifogydd difrifol a problemau yn ymwneud â lleoliad neu fynediad anaddas. Pwrpas Cam 1 yw hidlo allan safleoedd sydd yn llwyr anaddas neu'n amhosib i'w ddatblygu.
- 5.4.5 Cam 2 – Roedd hyn yn golygu asesiad fwy manwl o'r safleoedd, yn cynnwys asesiad yn erbyn meini prawf a ddatblygwyd i gymryd i ystyriaeth polisi a canllaw Llywodraeth Cymru. Mae'r safleoedd posib wedi cael eu sgorio rhwng 1 a 5 (1 = addasrwydd gwael, 5 = addasrwydd uchel) ar gyfer pob maen prawf i roi awgrymiad ar gyfer addasrwydd y safle ac i alluogi cymhariaeth o'r gwahanol safleoedd.

5.5 Meini Prawf i ddewis safle

- 5.5.1 Dyma grynodeb o'r saith maen prawf ar gyfer dewis safleoedd:

(a) Lleoliad

(a1)Safleoedd preswyl

Rhannwyd yr Ynys yn 5 band yn seiliedig ar y pellter o'r gwerysll anawdurdodedig a oddefir ar Ffordd Pentraeth.

Rhodddwyd sgôr o 1 i'r rhannau o'r Ynys sydd wedi'u lleoli bellaf o'u safle presennol, tra rhodddwyd y sgôr uchaf o 5 i'r rhan o'r Ynys sydd agosaf i'w safle cyfredol. Mae'r sgorio yn adlewyrchu sylwadau rhai o'r preswylwyr ar y safle anawdurdodedig

Pentraeth sef y buasent yn hoffi aros ar y safle presennol neu os bydd rhaid symud yna eu bod yn aros yn ardal y Fenai.

Mae GTAA 2016 yn dangos bod y rhai sydd ar rhestr aros Cyngor Gwynedd (5 aelwyd) wedi mynegi dyhead i gael llain ar y safle yn Llandygai. Mae'r angen i'r dyfodol (6 aelwyd) ar gyfer Gwynedd heb nodi pa ardal y maent eisio byw. Fodd bynnag mae'r angen yma yn dod o Sipsiwn a Theithwyr yn ardal Bangor. Felly mae'r tystiolaeth yn cyfeirio'r angen yma tuag at Bangor fel y lleoliad dewisol ar gyfer llety ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr.

(a2) Mannau Stopio Dros Dro

Mae tystiolaeth o gofnodion y Cyngor o achosion o wersylloedd anawdurdodedig yn dangos mai ar goridau yr A5/A55 y mae'r angen mwyaf. Mae safleoedd anawdurdodedig yn dueddol o ddigwydd yn ardal Caergybi, pan fo Sipsiwn-Teithwyr yn teithio i'r Porthladd Fferi, ac oddi yno. Mae Stad Ddiwydiannol Mona yn fan stopio poblogaidd i Sipsiwn a Theithwyr, gyda grŵp cymharol fawr o Sipsiwn-Teithwyr yn dewis aros yno am 2-3 wythnos ym mis Gorffennaf / Awst bob blwyddyn er, yn ddiweddar, mae gweryslyoedd anawdurdodedig wedi bod yn ymddangos dros fisoedd y gaeaf

Yn unol ag arfer dda, ystyrir y dylid darparu o leiaf 2 fan stopio dros dro ar yr Ynys i wasanaethu anghenion Sipsiwn a Theithwyr..

I gydnabod yr anghenion lleoliad penodol sydd gan Sipsiwn a Theithwyr sy'n dewis gweryslla yn ardal Caergybi a'r rheini sy'n dewis gweryslla ym Mona, lluniwyd dwy set o gylchoedd concentrig ar fap, un â'i ganolbwynt yn nherfynell y Porthladd a'r llall â'i ganolbwynt yn Stad Ddiwydiannol Mona. Mae safleoedd posib wedi cael eu sgorio yn dibynnu ar eu pellter o'r ddau ganolbwynt hyn. Rhoddwyd sgôr uchaf o 5 i safleoedd posib oedd o fewn 2 km i'r ddau ganolbwynt, tra rhoddwyd sgôr is i safleoedd sydd ymhellach i ffwrdd, yn dibynnu ar eu pellter o'r ddau ganolbwynt a nodwyd.

Mae'r GTAA 2016 yn esbonio pam bod yr ardal chwilio yng Ngwynedd wedi cael ei ganoli o gwmpas Caernarfon a pam y penderfynwyd mai dim ond un safle sydd ei angen. Nid oes bwriad dynodi safle arall dros dro yng Ngwynedd gan bod y rhan fwyaf o'r gweryslla anawdurdodedig wedi bod ar gyfer un ymweliad o fewn y flwyddyn. Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio ei brotocol oddefol ar gyfer y math yma o ymweliadau.

(b) Hygyrchedd

Mynediad i/o'r prif ffyrdd ac yn arbennig yr A55/A5 ar gyfer Mannau Stopio Dros Dro. Mynediad i/o'r prif ffyrdd a'r prif lwybrau cludiant cyhoeddus yn bwysicach i safleoedd preswyl parhaol. Mae hyn yn cynnwys y pellter o'r safle i'r ffordd, gwelededd ac ystyriaethau diogelwch eraill. Byddai anhawster gyda darparu mynediad addas i safle yn effeithio ar y gost a'r amserlen ar gyfer darparu'r safle.

(c) Y Safle

Addasrwydd y safle a faint o waith ffisegol y byddai ei angen fel bod y safle'n medru darparu cyfleusterau sylfaenol i'w ddefnyddio fel safle i sipsiwn/teithwyr.

(ch) Mwynderau

Dylai mwynderau a chyfleusterau lleol, megis siopau ac ysgolion, fod gerllaw. Ystyrir bod agosrwydd mwynderau a chyfleusterau lleol yn bwysicach wrth ystyried lleoliad y safleoedd preswyl na'r Mannau Stopio Dros Dro. Gan fod deiliaid y Mannau Stopio Dros Dro wedi medru teithio i safleoedd o'r fath, ystyrir y byddai ganddynt eu trafndiaeth eu hunain i deithio at fwynderau a chyfleusterau lleol.

(d) Yr Amgylchedd

Ansawdd yr amgylchedd o gwmpas y safle, yn cynnwys llygredd ar y safle, llygredd gerllaw, lefelau sŵn, risg llifogydd. Byddai safle Sipsiwn a Theithwyr yn syrthio i'r categori Datblygiad Hynod Fregus, yn unol â TAN15, ac ni fyddai unrhyw safleoedd mewn parth risg llifogydd C2 yn cael eu caniatáu ac ond yn cael ystyriaeth o fewn parth llifogydd C1 gwnaiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddod i gasgliad y gellid ei gyfiawnhau yn y fath leoliad (paragraff 6.2 o TAN15).

(dd) Cyfleustodau

Bydd angen trydan, dŵr a chyfleusterau carthffosiaeth ar yr holl safleoedd preswyl parhaol, ac yn ddelfrydol yn y manau stopio dros dro. Gellid defnyddio carthffos nad yw'n cysylltu i'r brif system, yn ogystal â generaduron trydan yn y Mannau Stopio Dros Dro ond byddai cysylltiad rhwydd i'r prif wasanaethau o fantais

(e) Argaeledd

Mae'n debyg y byddai'n haws ac yn rhatach datblygu safle sydd ym mherchnogaeth y Cyngor neu mewn perchnogaeth gyhoeddus o gymharu â safle sydd mewn perchnogaeth breifat, oherwydd efallai y byddai angen trafodaethau maith neu Orchymyn Prynu Gorfodol er mwyn caffael y safle i'w ddefnyddio fel safle i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n debyg y byddai'n broses gymhleth ceisio datblygu safleoedd nad ydynt eisoes mewn perchnogaeth gyhoeddus, gan felly effeithio ar yr angen i ddarparu safleoedd o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae'n bosib y bydd gan rai safleoedd ganiatâd cynllunio neu bod potensial i'w datblygu at ddibenion eraill, a allai effeithio ar eu gwerth.

Byddai angen cyflwyno rhybudd i denantiaid mân-ddaliadau'r Cyngor er mwyn sicrhau'r tir ar gyfer safleoedd preswyl.

- 5.6 Sut byddai safle preswyl nodweddiadol a Mannau Stopio Dros Dro yn edrych, a pha gyfleusterau fyddai'n cael eu darparu?

5.6.1 Byddai'r Cyngor yn dilyn Canllaw Llywodraeth Cymru ar ddyluniad safleoedd. Golyga hyn y byddem yn ymgorffori'r canlynol fel lleiafswm.

5.6.2 Preswyl

- Byddai pob llain yn darparu llawr caled ar gyfer y cerbyd y mae'r aelwyd yn byw ynddo, lle i barcio car, a bloc mwynderau. Byddai'r bloc mwynderau yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin.
- Goleuadau cyhoeddus sy'n addas at ddibenion diogelwch a diogeledd.
- Cyflenwad o ddŵr sy'n addas i'w yfed ac at ddefnydd domestig.
- Gofod i gynwysyddion i ddal gwatraff domestig a deunydd ailgylchu. Ffiniau diogel a giât sy'n cloi.

5.6.3 Mannau Stopio Dros Dro

- Ffens neu rwystr o amgylch y safle i atal y deiliaid rhag ehangu'r safle heb awdurdod, a giât neu rwystr wrth y fynedfa fel mai dim ond at y diben dan sylw y caiff y safle ei ddefnyddio.
- Byddai lleiniau caled yn eu lle gyda draenio digonol
- Gan ei bod yn bosib y bydd y safleoedd hyn yn wag am gyfnodau hir, gellid defnyddio deunydd megis grass-crete i sicrhau bod dŵr glaw yn medru draenio'n naturiol, gan ddarparu arwyneb y byddai modd dreifio arno hefyd pan fo rhywun yn byw ar y safle.
- Dylai bod y gwasanaethau brys yn medru cael mynediad i'r safle yn ddirwystr bob amser. Dylid cadw pellter diogel rhwng trelars a charafanau bob amser a chadw pellter diogel hefyd oddi wrth unrhyw ddeunyddiau hylosg. Mae'n rhaid ceisio cyngor gan yr Awdurdod Tân ac Achub perthnasol wrth gynllunio ar gyfer manau stopio dros dro
- Bydd y canlynol fel arfer yn cael ei ddarparu, yn unol efo egwyddorion protocol Gogledd Cymru ar Rheoli Gwersyll Anawdurdodedig 2016 (Cymeradwywyd gan Prif Weithredwyr Traws-Sector Gogledd Cymru 22.01.2016):-
 - Cyflenwad dŵr oer
 - Toiledau symudol
 - Pwynt gwaredu carthffosiaeth
 - Casglu gwastraff.

5.7 Mae Atodiad 1 yn cynnwys tabl sydd yn crynhoi y safleoedd sydd o dan ystyriaeth fel safleoedd Sipsiwn-Teithwyr (preswyl a dros dro) ynghyd ag awgrymiad ar gyfer pa safleoedd fydd yn destun asesiad Cam 2.

- 5.8 Mae Atodiad 2 yn cynnwys tabl sydd yn crynhoi y safleoedd a gafodd yr asesiad fwy manwl yn Ngam 2.
- 5.9 Yn Atodiad 3 ceir tabl ar gyfer y holl safleoedd sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar Ynys Môn ar safleoedd posib sydd o dan ystyriaeth yng Ngwynedd fel dynodiadau posib i gyfarch yr angen a geir yn adroddiad GTAA 2016.

6.0 Y Ffordd Ymlaen

- 6.1 Er mwyn cyfarch y gwrthwynebiadau a gafwyd i'r Cynllun Adnau mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn mynd i barhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Tai i sicrhau bod safleoedd digonol yn cael ei adnabod ar gyfer yr angen yn y GTAA 2016. Ar hyn o bryd (Mawrth 2016) deallir bydd Cyngor sir Ynys Môn mewn sefyllfa i benderfynu ar safleoedd a ffefrir ar yr Ynys erbyn diwedd Mai 2016. Yn ogystal deallir bydd Cyngor Gwynedd wedi penderfynu ar ei saqfle a ffefrir o fewn y run amserlen. Bydd gwybodaeth am benderfyniadau'r Cynghorau yn cael ei wneud ar gael i'r Arolygydd a enwir cyn i'r Gwrandawiaidau ddechrau os ceir cyfarwyddyd ar gyfer hyn gan y Swyddog Rhaglen.

Atodiad 1

CAM 1 SAFLEOEDD GAFODD YSTYRIAETH YM MÔN

Safle Cyf Rhif.	Ystyrir yn safle Preswyl (P) a/neu Dros Dro (DD)	Lleoliad	Sylwadau Cychwynnol	Ymlaen i Gam 2? Aseiad
1.	P	Mân ddaliad Penmynydd	Mân ddaliad y Cyngor	IE
2.	P	Mân ddaliad Penmynydd	Mân ddaliad y Cyngor	IE
3.	P	Parsel o dir yn Mân ddaliad Gaerwen	Ym mherchnogaeth y Cyngor	IE
4.	P & DD	Tyrpeg Nant, Llangefni	Safle da, lleoliad canolog. Mewn perchnogaeth breifat, ychydig o eiddo preswyl gerllaw	IE
5.	P & DD	Safle Cyn Westy Tŷ Mawr, Llanfairpwll	Cyfleus i'r A55. Safle ar gyrion Llanfairpwll. Ychydig o eiddo preswyl gerllaw.	IE
13.	P & DD	Tir Tŷ Mawr, Llanfairpwll	Cyfleus i'r A55. Safle ar gyrion Llanfairpwll. Ychydig o eiddo preswyl gerllaw.	IE
17.	P & DD	Plotiau gwag Stad Ddiwydiannol Llangefni	Safle cyflogaeth presennol, Tir gwag ar gael. Angen gwirio p'un a yw ym mherchnogaeth y Cyngor ynteu LIC?	IE
18.	P & DD	Gwersyll presennol ger Pentraeth	Dylid ystyried defnyddio'r safle ar gyfer lleihau nifer yr unedau sy'n destun i gydymffurfio â meini prawf bylchau a mynediad gan y gwasanaethau brys, ayb. Cyflenwad dŵr ar y safle. Diffyg sgrinio yn ystod y misoedd y gaeaf.	IE
26.	DD	Safle ger y Gwaith Prosesu Cig, Gaerwen	Ym mherchnogaeth y Cyngor	IE
27.	P & DD	Chwarel Bwlch Gwyn, Pentre Berw, Gaerwen	Mewn perchnogaeth breifat. Cyn chwarel	IE
29.	P & DD	Tir rhwng yr A5 a'r A55, rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star	Lleoliad da, mynediad da i'r A55/A5. Angen canfod pwy yw'r perchennog.	IE
31.	P	Tir yn Penhesgyn, ger Penmynydd	Safle ychwanegol a roddwyd ymlaen mewn Cyfarfod Cyhoeddus yn Llandegfan 22.01.2016.	IE
7.	DD	Stad Ddiwydiannol Llangefni Plot gwag	Llwybr y ffordd gyswllt arfaethedig. Nid yw'r tir ar gael. Mewn perchnogaeth breifat	NA
8.	DD	Safle Vosa ger A55 Bodedern	Addas i Fan Aros Dros Dro, ansicrwydd dros argaeledd y safle.	IE
11.	DD	Priffordd wedi ei chau ger A55 Bodedern	Addas i Fan Aros Dros Dro i uchafswm o 3 carafán? Gwyddys bod bysiau ysgol yn parcio ar y safle hwn. Safle	IE

Safle Cyf Rhif.	Ystyrir yn safle Preswyl (P) a/neu Dros Dro (DD)	Lleoliad	Sylwadau Cychwynnol	Ymlaen i Gam 2? Aseiad
			yn weladwy o'r A55. Deallir ei fod ym mherchnogaeth y Cyngor gan mai'r Cyngor sy'n cynnal y safle.	
14.	DD	Tir ger y Ganolfan Fenter, Kingsland Caerdybi	Ystyrir yn addas ar gyfer arhosiad byr dros dro achlysurol. Agoswydd at breswylfeydd cyfagos yn debygol o fod yn broblem. Tir ar werth. Cynnig wedi ei gyflwyno. Efallai na fydd ar gael os caiff ei ddatblygu ar gyfer defnyddiau eraill.	IE
15.	DD	Cyn Faes Parcio, Tir yn Alwminiwm Môn	Lleoliad da. Safle'r gwaith biomas arfaethedig	IE
16.	DD	Tir yn union tua'r dwyrain o B&M (Homebase Gynt), Caerdybi	Safle ychwanegol a roddwyd ymlaen ar gam hwyr.	IE
19.	DD	Stad Ddiwydiannol Mona	Hanes o wersylloedd anawdurdodedig	IE
22.	DD	Parc Cybi, Caerdybi	Lleoliad da, mynediad da i'r A55. Tir gwag ar gael	IE
24.	DD	Caeau Isaf, Tir Cae Sioe Môn	Mynediad da i'r A55	IE
25.	DD	Tir Dalar Hir ger Bodedern	Mynediad da o'r A55. Tir wedi ei brydlesu yn ôl i'r ffarmwr gan gwmni Pŵer Niwclear Horizon.	IE
28.	DD	Tir i'r De o Ysgol Kingsland, Caerdybi	Safle nesaf at Ysgol Gynradd Kingsland. Mynediad da at siopau a chyfleusterau.	IE
30.	DD	Tir yng nghefn Stena, Parc Mona, Bodffordd	Plot gwag ar y Stad Ddiwydiannol	IE
32.	DD	Tir i'r de o Alpoco, Caerdybi	Safle ychwanegol a roddwyd ymlaen ar gam hwyr.	IE
9.	DD	Hen Safle Ysgol y Bont Maes Parcio / Iard Llangefni, Ardal Bresennol Parcio Ysgol / Ardaloedd Iard allan o amser tymor	Safle i'w ailddatblygu ar gyfer tai.	NA
10.	DD	Hen Safle Ysgol y Graig Maes Parcio/Ardal Iard, Llangefni	Safle i'w ailddatblygu.	NA
12.	DD	Cilfannau ger Cartio Môn, Bodedern	Nid ystyrir yn addas am resymau diogelwch priffyrdd	NA
23.	DD	Parc Gwyddoniaeth, Gaerwen	Rhoddyd caniatâd cynllunio i'r safle. Ni fydd ar gael.	NA
33.	DD	Tir Dalar Hir ger Bodedern	Lleoliad da mynediad da i'r A55/A5.	IE
34.	DD	Ysgol Uwchradd Llangefni	Ar gael yn ystod gwyliau ysgol yn unig. Eiddo preswyl a chanolfan hamdden gerllaw.	NA
35.	P	Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd	Safle ychwanegol a roddwyd ymlaen ar gam hwyr.	IE

Atodiad 2

CAM 2 SAFLEOEDD GAFODD YSTYRIAETH YM MÔN A GWYNEDD

Tabl 1 – Safleoedd Posib yn Ynys Môn

Rhif y Safle	Lleoliad	Lleoliad- Angen	Hygyrchedd	Y Safle	Amwynderau	Amgylchedd	Cyfleustodau	Argaeledd	Perchnogaeth breifat (PB)/ ALI / Sector Cyhoeddus Arall (SCA)	Cyfanswm Sgôr	Sylwadau cyffredinol
3. P & DD	Mân Ddaliad Gaerwen	2	4	3	3	4	3	4	Awdurdod Lleol (ALI)	23	Materion tenantiaeth, byddai'r math o denantiaeth yn arwain y dull. Byddai angen mynd at y tenant a thrafod rhyddhau tir a thalu iawndal i'r tenant. <u>Dyraniad posibl ar gyfer safle preswyl. Safle yn destun i Ymarfer Ymgynghori Cyhoeddus.</u>
